

Agenda – Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mawrth 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.15 0300 200 6565
SeneddMADY@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(14.15)

**2 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) –
trafodiadau Cyfnod 2**
(14.15–15.30)

Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio

Dogfennau ategol:

[Rhestr grwpio gwelliannau](#) – 12 Mawrth

[Rhestr o welliannau wedi'u didoli](#) – 12 Mawrth

3 Papur(au) i'w nodi
(15.30–15.35)

**3.1 Papur i'w nodi 1 – Gohebiaeth gan y Gwir Anrhydeddus Hilary Benn AS,
Cadeirydd y Pwyllgor ar Adael yr Undeb Ewropeaidd ynghylch dadansoddiad
sector**

(15.35)

(Tudalen 1)

**3.2 Papur i'w nodi 2 – Gohebiaeth gan y Gwir Anrhydeddus Hilary Benn AS,
Cadeirydd y Pwyllgor ar Adael yr Undeb Ewropeaidd ynghylch dadansoddiad
o adael yr Undeb Ewropeaidd**

(15.35)

(Tudalen 2)



- 3.3 Papur i'w nodi 2 – Gohebiaeth gan Robin Walker AS, Is-ysgrifennydd
Seneddol y Wladwriaeth ar gyfer yr Adran Gadael yr Undeb Ewropeaidd
ynghylch dadansoddiad o adael yr Undeb Ewropeaidd**
(15.35) (Tudalennau 3 – 4)
- 3.4 Papur i'w nodi 3 – Briff y Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaeth Cyfreithiol
Crynodeb o'r Bil: Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)**
(15.35) (Tudalennau 5 – 30)
- 3.5 Papur i'w nodi 5 – Gohebiaeth gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet
dros Gyllid ynghylch adroddiad Horizon 2020**
(15.35) (Tudalennau 31 – 32)
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod ar 19 Mawrth**
(15.35)
- 5 Monitro trafodaethau'r Undeb Ewropeaidd**
(15.35–16.00) (Tudalennau 33 – 63)
- 6 Briff cyfreithiol ar Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd
(Cymru)**
(16.00–16.20) (Tudalennau 64 – 69)

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly of Wales
Cardiff
CF99 1NA


22 February 2018

Dear David,

Thank you for your letter of 9 February requesting that the Committee on Exiting the EU share the UK Government's EU Exit Analysis: Cross-Whitehall Briefing with your Committee on a confidential basis.


The Committee considered this request yesterday and agreed that it would be happy to share the documents in full on the basis set out in your letter. The Committee staff will be in contact with your office to discuss appropriate arrangements for the documents to be shared.

I would add that the Committee also agreed yesterday that it was minded to publish the documents in full, but has written to the Secretary of State to ask whether there are any specific details that he would wish to redact on the basis that they were either sensitive to the negotiations, market-sensitive or commercially confidential.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Hilary Benn'.

Rt Hon Hilary Benn MP
Chair

Item 3.2 Committee on Exiting the European Union



House of Commons, London, SW1A 0AA

Email: exeucom@parliament.uk Website: www.parliament.uk/exeucom

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly of Wales
Cardiff
CF99 1NA

7 March 2018

Dear David,

Further to my letter of 22 February, I am writing to inform you that the Committee on Exiting the EU has decided to publish the Government's EU Exit Analysis: Cross Whitehall Briefing, provided to the Committee subsequent to the Humble Address agreed by the House on 31 January. After discussion, the Committee agreed to publish the document with the exception of Annex B, on the grounds of its sensitivity to the negotiations.

Rt Hon Hilary Benn MP
Chair



Department
for Exiting the
European Union

Robin Walker MP
Parliamentary Under Secretary of State for
Exiting the European Union
9 Downing Street
SW1A 2AG

+44 (0)20 7001 2299
psrobinwalker@parliament.uk
www.gov.uk **Eltem 3.3**

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

5th March 2018

Dear David,

EU EXIT ANALYSIS

Thank you for your letter of 9 February, where you set out your request for the 'EU exit analysis: Cross Whitehall Briefing' document, that we recently submitted to the Commons Exiting the EU Committee and Lords EU Committee, to be shared with the National Assembly for Wales' External Affairs and Additional Legislation Committee.

As you may know, the House of Commons explicitly recognised the confidential nature of the material contained in this analysis in the motion it debated last month. During the debate on 31 January, I made clear that the material was preliminary, unfinished and had only very recently been presented to Ministers. It contains a large number of caveats, and sets out on every page that this is "draft analytical thinking with preliminary results". It does not reflect the Government's policy approaches, and is not representative of the expected outcome of the negotiations. Placing this incomplete analysis in the public domain would not serve the national interest in the upcoming negotiations.

You will be aware that under the Osmotherly Rules the document is now the property of the aforementioned Committees. As you will know, however, we have provided a reading room in the Secretary of State for Wales's office in Cardiff for Assembly Members (including of course members of your Committee) to view the document in a secure environment. I am pleased that you and a member of your Committee have already been able to make use of that facility and should other Assembly Members wish to use the reading room then it remains available by appointment.

I am copying this letter to Mark Drakeford AM, Welsh Government Cabinet Secretary for Finance, Elin Jones AM, Presiding Officer of the National Assembly for Wales, the

Chancellor of the Duchy of Lancaster, the Secretary of State for Exiting the European Union
and the Secretary of State for Wales.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Robin Walker', written in a cursive style.

ROBIN WALKER MP
PARLIAMENTARY UNDER SECRETARY OF STATE FOR
EXITING THE EUROPEAN UNION

Briff y Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaeth Cyfreithiol **Crynodeb o'r Bil: Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)**

Awdur: **Manon George, Alys Thomas, Nia Moss, Martin Jennings a
Elisabeth Jones**
Dyddiad: **Mawrth 2018**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Manon George, Alys Thomas, Nia Moss, Martin Jennings a Elisabeth Jones**

Dyddiad: **Mawrth 2018**

Rhif Papur: **18-020**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6313

✉ : Nia.Moss@Cynulliad.Cymru

🌐 : seneddymchwil.blog

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff y Gwasanaeth Ymchwil a'r
Gwasanaeth Cyfreithiol
**Crynodeb o'r Bil: Bil Cyfraith sy'n
Deillio o'r Undeb
Ewropeaidd (Cymru)**



Cynnwys

1. Y cefndir	1
Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)	1
“Bil Parhad”	4
Safbwynt Llywodraeth Cymru	5
Safbwynt y pleidiau eraill a Llywodraeth y DU	6
Gweithdrefn Biliau Brys	6
Datblygiadau yn yr Alban	7
2. Darpariaethau'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)	8
Darpariaethau	8
Cyfraith uniongyrchol yr UE, deddfiadau sy'n deillio o'r UE a darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE	11
Dargadw, ailddatgan a phennu	12
Gweithdrefnau craffu	13
Cymalau machlud a diwrnod ymadael	14
Cymhwysedd deddfwriaethol	14
3. Costau a manteision	15
Costau ac arbedion gweinyddu a chydymffurfiaeth	15
Costau heb eu meintoli neu anfanteision	15
4. Darpariaethau allweddol y Bil	16
Strwythur y Bil	16
Adran 3	16
Adran 4	18
Adran 5	19
Adran 7	19
Adran 9	19
Adran 10	20
Adran 11	20
Adrannau 13 ac 14	21
Y defnydd o bwerau Harri'r VIII	21

1. Y cefndir

Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Cyflwynwyd **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** ('y Bil Ymadael') (Saesneg yn unig) gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 13 Gorffennaf 2017. Ar ei symlaf, mae'r Bil yn diddymu **Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972**, yn cadw'r mwyafrif helaeth o gyfraith yr UE sydd mewn grym yn y DU ar hyn o bryd ac yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Datganoledig i wneud newidiadau i'r corff hwnnw o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Datganoledig i wneud newidiadau yn fwy cyfyngedig na'r pwerau a roddir i Weinidogion y DU. Mae'r Bil hefyd yn gwneud newidiadau i'r setliad datganoli a chymhwysedd y Cynulliad. Crybwyllir y rhain isod ond ceir rhagor o fanylion am y Bil a sut y bydd yn effeithio ar y Cynulliad yn y **rhagarweiniad** a'r **canllawiau gweledol** i'r Bil a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

Yn sgil cyflwyno'r Bil Ymadael i Senedd y DU, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ar 13 Gorffennaf 2017** yn dweud na fu braidd ddim ymdrech gan Whitehall i gydweithio â'r Llywodraethau datganoledig, a bod rhannau o'r Bil yn gwbl annerbyniol i Lywodraeth Cymru. Dywedodd:

Er gwaetha'r rhybuddion clir a niferus y byddai unrhyw ymgais gan San Steffan a Whitehall i gymryd y pwerau sydd gan yr UE ar hyn o bryd a'u cadw iddyn nhw eu hunain yn hollol annerbyniol, dyna'n union y mae Cymal 11 o Fil yr UE (Ymadael) yn ceisio ei wneud.

Byddai rhan hon y Bil yn diwygio'r ddeddfuriaeth ddatganoli a rhoi cyfyngiadau newydd - heb unrhyw derfynau neu gymwysterau - ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn effeithiol ar faterion lle rydym yn gweithredu ar hyn o bryd o fewn fframweithiau deddfuriaethol a ddatblygwyd gan yr UE, hyd yn oed ar ôl inni adael yr UE. Byddai cyfreithiau presennol yr UE yn cael eu rhewi, a dim ond Llywodraeth y DU, ymddengys, fyddai â'r hawl i'w dadrewi.

Yn ymarferol, byddai hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth y DU geisio cymeradwyaeth Seneddol i osod fframweithiau newydd i'r DU gyfan ar gyfer y polisïau hyn. Dyma ymgais i ad-ennill rheolaeth dros bolisïau datganoledig fel yr amgylchedd, amaethyddiaeth a physgodfeydd nid yn unig o Frwsel, ond o Gaerdydd, Caeredin a Belffast.

Dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn cytuno â nod y Bil ac nad oedd yn ceisio rhwystro'r broses o ymadael â'r UE os na chaiff y Bil ei ddiwygio:

... ni fydd Llywodraeth Cymru yn argymhell i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cydsyniad deddfuriaethol iddo. Byddwn hefyd yn parhau i edrych ar sut y gallwn ddefnyddio ein pwerau deddfuriaethol presennol i helpu i amddiffyn ein setliad datganoli.

Mae cymal 11 o'r Bil Ymadael yn rhewi cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd a gwmpesir gan gyfraith yr UE. Ar hyn o bryd, rhaid i Ddeddfau'r Cynulliad fod yn gydnaws â chyfraith yr UE. Bydd y cyfyngiad hwnnw'n dod i ben yn awtomatig pan fydd y DU yn gadael yr UE. Fodd bynnag, mae'r Bil Ymadael yn cyflwyno cyfyngiad newydd yn lle'r cyfyngiad hwnnw. Mae'n dweud, ar ôl ymadael, y bydd yn rhaid i'r Cynulliad ddeddfu yn gydnaws â chyfraith yr UE a ddargedwir, a bydd yn rhaid bod yn gydnaws ag unrhyw newidiadau a wneir gan Weinidogion Cymru neu Weinidogion y DU i'r gyfraith honno o'r UE a ddargadwyd. Fel arall, byddai'r Cynulliad yn dal i allu

deddfu yn gydnaws â chyfraith yr UE cyn ymadael (os bydd hynny'n dal yn opsiwn ymarferol). Mae'r Bil hefyd yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y caiff y cyfyngiadau hyn eu codi, mewn meysydd polisi unigol, trwy gytundeb rhwng y DU a'r llywodraeth ddatganoledig berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gwrthwynebu cymal 11 ac yn awyddus iddo gael ei ddiwygio.

Mae'r Bil ar ei daith drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Daeth cyfnodau Tŷ'r Cyffredin o'r Bil Ymadael i ben ar 17 Ionawr. Cymeradwywyd y Bil gan Dŷ'r Cyffredin ar y Trydydd Darlleniad, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi y diwrnod canlynol. Dechreuodd Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi o'r Bil ar 21 Chwefror a threfnwyd ei fod yn eistedd am 10 diwrnod gyda'r diwrnod olaf ar 26 Mawrth. Yna bydd y Bil yn symud i'r Cyfnod Adrodd i graffu ymhellach arno, sydd fel arfer yn digwydd 14 diwrnod ar ôl diwedd y Cyfnod Pwyllgor. Bydd y Bil yn cael Trydydd Darlleniad i'w ddarllen yn derfynol cyn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin er mwyn ystyried y newidiadau a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi.

Ar 12 Medi, gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar y Bil Ymadael gerbron y Cynulliad. Yn y Memorandwm soniwyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu argymhell i'r Cynulliad ei fod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y'i drafftwyd.

Ar 19 Medi, anfonodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban **lythyr ar y cyd** at Brif Weinidog y DU yn nodi eu gwrthwynebiadau i'r Bil Ymadael ac yn awgrymu cyfres o welliannau ar y cyd. Hyd yn hyn, nid yw'r gwelliannau hynny wedi'u gwneud i'r Bil.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad wedi bod yn ystyried y Bil. Ysgrifennodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **at bob AS** yn ceisio gwelliannau i'r Bil yn unol â **chwe amcan, gan gynnwys dileu cyfyngiadau cymal 11 o'r Bil**. Ysgrifennodd y **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE yn amlinellu safbwynt y Pwyllgor ar y Bil.

Ym mis Tachwedd 2017, rhoddodd y Prif Weinidog **dystiolaeth i sesiwn ar y cyd** o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol lle cadarnhaodd fod Bil Parhad wedi'i ddrafftio i ddiogelu datganoli yng Nghymru pe na bai'r Bil Ymadael yn cael ei ddiwygio. Pan bwyswyd arno gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ddweud pryd y byddai'r penderfyniad i gyflwyno Bil o'r fath yn cael ei wneud, atebodd fel a ganlyn:

It's not an exact science, but, clearly, the continuity Bill would need to have gone through the Assembly and have received Royal Assent before the withdrawal Bill had gone through both Houses of Parliament. As I say, our preferred option is to see the amendments supported in the House of Commons. If that's not the case, then, of course, that'll be the time to consider when and if a continuity Bill should be introduced.

Ddydd Mawrth 12 Rhagfyr 2017, cyfarfu Cydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE). Dyma'r Pwyllgor a sefydlwyd i fod yn gyfrwng ar gyfer trafodaethau rhwng y DU a'r Gweinidogion Datganoledig ar drafodaethau'r UE. Cyfarfu'n flaenorol ar **16 Hydref** pan gytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r fframweithiau polisi cyffredin ar ôl i'r DU adael yr UE. Wedi hynny, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, a oedd yn bresennol ar ran Llywodraeth Cymru, **ddatganiad**. Ei gasgliad oedd:

[...] roeddwn yn glir na all Llywodraeth Cymru argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil yr UE (Ymadael) oni chaiff materion ynghylch pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru eu datrys mewn diwygiadau y dylid cytuno arnynt cyn i'r Bil ymadael â Thŷ'r Cyffredin. Cytunodd Llywodraeth y DU y dylid cael trafodaeth benodol bellach ar lefel swyddogol ynghylch atebion posibl.

Cyhoeddodd **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** y Cynulliad adroddiadau ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ymadael ar 15 Rhagfyr ac 18 Rhagfyr 2017. Daeth y ddau Bwyllgor i'r casgliad y dylai'r Cynulliad ohirio ei gydsyniad ar gyfer y Bil yn ei ffurf bresennol.

Ar **17 Ionawr 2018** bu'r Cynulliad yn trafod Cynnig Deddfwriaethol gan Steffan Lewis AC. Y cynnig oedd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- 1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil Parhad i Gymru.*
 - 2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai cadarnhau bod yr holl bynciau a oedd yn rhan o gyfraith yr UE yn parhau o fewn cyfraith Cymru lle bônt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Cymru 2017.*
-

Agorodd Steffan Lewis y ddadl drwy ddweud:

...pa un a oeddech o blaid gadael neu aros, a pha un a ydych yn unoliaethwr neu'n genedlaetholwr, mae hynny'n amherthnasol i fater y Bil parhad. Mae pa un a ddylech gefnogi Bil parhad ai peidio yn dibynnu ar sut rydych yn ateb un cwestiwn syml: a ydych yn credu bod refferendwm 2016 yn darparu mandad i Lywodraeth y DU gipio pwerau oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol hwn?

Roedd hefyd yn cwestiynu pam yr oedd Llywodraeth Cymru yn gohirio rhag cyflwyno Bil Parhad "tan y funud olaf" o ystyried nad oedd unrhyw un o'i gwelliannau wedi cael eu derbyn yn ystod taith y Bil Ymadael drwy Dŷ'r Cyffredin. Gorffennodd drwy ddweud:

Mae gennym gyfnod byr o amser i weithredu er budd ein dinasyddion a'r hawliau a'r safonau sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â'r strwythurau democrataidd y maent wedi eu cymeradwyo mewn dau refferendwm. Gadewch i ni fachu'r cyfle hwn.

Pleidleisiodd yr holl bleidiau o blaid y cynnig a gyflwynwyd gan Steffan Lewis AC.

Ddydd Mawrth 22 Chwefror 2018, cyfarfu Cydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE) unwaith eto. Cafodd **newidiadau arfaethedig i gymal 11 o'r Bil Ymadael**, a fwriadwyd sicrhau bod holl bwerau datganoledig yr UE yn trosglwyddo'n uniongyrchol o Frwsel i Belfast, Caerdydd a Chaeredin, eu rhannu gan Swyddfa'r Cabinet gyda'r gweinyddiaethau datganoledig cyn Cydbwyllgor y Gweinidogion.

Dywedodd Canghellor Dugiaeth Lancaster, David Lidington AS, sy'n cadeirio cyfarfodydd Cydbwyllgor y Gweinidogion, fod y cynigion newydd yn cynrychioli "cynnig" sylweddol gan Lywodraeth y DU a'i fod yn gobeithio y byddai'r llywodraethau datganoledig yn ymgysylltu â hynny mewn modd adeiladol. Dywedodd:

The changes would mean that the vast majority of powers will automatically flow from the EU to the devolved administrations. As the UK government has made clear, we always expected that the process would result in a significant increase in their decision making abilities. The changes would also ensure the UK Government would have the ability to protect the internal UK market where necessary, in a small number of areas.

Cyhoeddwyd **crynodeb a datganiad** ar ôl y cyfarfod. Yr oedd yn dweud fel a ganlyn:

The Committee discussed the EU (Withdrawal) Bill, including the proposal to amend clause 11. It was noted that progress had been made, but agreement had not yet been reached between the UK Government, Scottish Government and Welsh Government on the form of an amendment. Discussions on further detail would continue in the coming weeks.

Ar ôl y cyfarfod, **dywedodd** Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, a oedd yn bresennol ar ran Llywodraeth Cymru:

There is progress – there are ideas we were able to discuss today. They didn't go far enough. They don't meet all the things that we think are necessary to persuade the National Assembly for Wales to support the bill. But we'll meet again and hope that we'll be able to conclude agreement in advance of amendments being put down in the House of Lords.

Ar 26 Chwefror, rhoddodd David Lidington, **araith** yn Airbus ym Mrychdyn lle soniodd am y cynnydd a wnaed yn y Cydbwyllgor Gweinidogion gan ymhelaethu ar "gynnig" Llywodraeth y DU:

So our proposal is to amend the Bill before Parliament to make clear that while frameworks are being agreed, the presumption would now be that powers returning from the EU should sit at a devolved level.

Westminster would only be involved where, to protect the UK common market or to meet our international obligations, we needed a pause – I stress pause - to give the governments time to design and put in place a UK-wide framework.

As I have said before, we expect to be able to secure agreement with the devolved governments about what frameworks should - or should not - apply to each power.

And where powers do need to be returned to a UK-wide framework, we will maintain the ability for the UK Parliament to legislate to do so.

Just as the current provisions within the EU Withdrawal Bill on releasing powers to devolved governments are intended to be by consensus and agreement with the devolved governments themselves, so we should expect this new, inverted power to operate in the same way - by consensus and by agreement.

"Bil Parhad"

Ar 27 Chwefror, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn am gyfarfod Cydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE)** a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2018. Dywedodd fod y cyfarfod wedi bod yn "adeiladol", a bod y tair Llywodraeth yn cytuno eu bod yn rhannu'r amcan o ddod i gytundeb ar y materion hyn, ond bod cynigion y DU yn dal i

fod ymhell o'r hyn a fyddai'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet rhagddo i ddweud:

[...] we have today also taken steps towards the introduction of our own continuity legislation. One of the reasons why there has been such frustration at the slow pace with which the UK Government has taken forward discussions on amending the EU withdrawal Bill is the implications of this slow progress on our own plans. We have been absolutely clear, and remain completely clear, that our preference is for a workable UK-level Bill. But, as is well known, and with strong support across this Chamber, very regularly articulated, for example, by Steffan Lewis, we have been working hard on a fallback option, both to provide legal continuity of EU legislation about devolved matters in Wales, and to safeguard devolution. We have come to the point where we cannot delay any longer if this legislation, even as an emergency Bill, is to have a reasonable opportunity of getting onto the statute book in time for us to be able to take the steps necessary to secure legislative continuity.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad i'r wasg ar yr un diwrnod**, a oedd yn esbonio pam ei bod yn bwrw ymlaen â'r Bil:

Yr opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio o hyd yw i Lywodraeth y DU ddiwygio ei Bil Ymadael arfaethedig. Ond gan fod cymaint o amser wedi pasio heb unrhyw gytundeb rhwng y llywodraethau ar y diwygiadau gofynnol, mae angen bwrw ymlaen â'r Bil Parhad fel ail ddewis i amddiffyn datganoli yng Nghymru.

Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gopi o'i chynigion ar gyfer bil parhad, sef **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)** ar ei gwefan. Cyhoeddodd Llywydd y Cynulliad **ddyfarniad** ar y Bil, gan ddweud ei fod, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd. Hefyd, **cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad** yn cyfeirio at y materion yr oedd wedi'u hystyried wrth wneud ei phenderfyniad.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ffafrio cael 'Bil Parhad'. Yn y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar y Bil Ymadael a osodwyd ym mis Medi 2017, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n gallu argymhell i'r Cynulliad ei fod yn cydsynio i'r Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd. O gofio nad oes yr un o'r gwelliannau ar y cyd a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi cael eu derbyn hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bwrw ymlaen i gyflwyno **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)**.

Yn y **Memorandwm Esboniadol i'r Bil**, dywed Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

31. Fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, nid oes gwarant y bydd modd dod i gytundeb ar welliannau a fyddai'n darparu'r deddfwriaeth angenrheidiol mewn ffordd sy'n parchu datganoli. O ganlyniad, nid oes dewis gan Lywodraeth Cymru ond paratoi'n gyfrifol ar gyfer y posibilrwydd o weld y Cynulliad yn gwrthod rhoi cydsyniad i'r Bil i Ymadael â'r UE. Mae hyn er mwyn sicrhau, beth bynnag sy'n digwydd, bod fframwaith deddfwriaethol yn ei le er mwyn galluogi'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru i wneud y newidiadau deddfwriaethol sy'n angenrheidiol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

32. Mae'r trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU ar welliannau posib i'r Bil i Ymadael â'r UE, gyda'r bwriad o sicrhau cytundeb a fyddai'n galluogi Gweinidogion

Cymru i argymhell i'r Cynulliad y dylid rhoi cydsyniad. Nid yw'r gwaith a wnaed hyd yma, ac sy'n parhau i fynd rhagddo, i baratoi ateb deddfwriaethol yng Nghymru i bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil i Ymadael â'r UE yn mynd i amharu ar y trafodaethau hynny.

Safbwynt y pleidiau eraill a Llywodraeth y DU

Yn ystod y drafodaeth y Cyfarfod Llawn ar 27 Chwefror, a ddilynodd ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar gyfarfod Cydbwyllgor y Gweinidogion ar 22 Chwefror, siaradodd nifer o Aelodau'r Cynulliad gan amlinellu eu hymatebion cychwynnol i'r datganiad.

Croesawodd Plaid Cymru y Bil. Dywedodd Simon Thomas AC fod y grŵp yn falch iawn o weld fod hwn bellach yn rhan greiddiol o offer y Llywodraeth.

Dywedodd Neil Hamilton AC, UKIP:

I support the proposal to introduce an emergency Bill into this Assembly. I think that this is necessary as a tactic, at least, to force the UK Government to recognise the reality of the situation, that the Welsh Assembly is a legitimate expression of the views of the Welsh people and our purpose here is to ensure that the devolution settlement is respected by the UK Government and that the Brexit process should not be used to undermine it.

Roedd David Melding AC, Ceidwadwyr, yn croesawu'n gyffredinol dôn Gweinidog y Cabinet ac roedd yn rhagweld y bydd cytundeb yn cael ei wneud ac, felly, na fyddai angen am y Bil Parhad mwyach. Ychwanegodd:

Obviously, on this side of the house—let's be frank—we're uncomfortable about this emergency legislation, both here and in Scotland, but it's part of a wider landscape and I don't want to be distracted by the reasons for that. We need an effective settlement here and the EU withdrawal Bill is the best way to do that.

Ar 28 Chwefror, wrth ateb cwestiwn gan Ian Blackford AS yn ystod y sesiwn gwestiynau i Brif Weinidog y DU, dywedodd Theresa May, y Prif Weinidog, **fel a ganlyn**:

The right hon. Gentleman talks about the continuity Bills. The proposals being put forward are unnecessary, and it would be rather more helpful if he concentrated on reaching an agreement in relation to the withdrawal agreement. We want to ensure that more powers are devolved to the devolved Administrations, and that is what we are going to deliver.

Gweithdrefn Biliau Brys

Ar 27 Chwefror 2018 cafodd **Datganiad Busnes** y Cynulliad ei newid ar gyfer 6 Mawrth i gynnwys dau gynnig:

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 fod Bil a elwir yn Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth;
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil a elwir yn Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

Mae'r **Rheolau Sefydlog** yn gwneud darpariaeth ar gyfer pasio deddfwriaeth frys os caiff ei chymeradwyo gan gynnig yn y Cynulliad. Bil Brys yw Bil Llywodraeth y mae angen ei wneud yn Ddeddf yn gynt nag y mae proses deddfu arferol y Cynulliad yn ei ganiatáu. Yn ôl Rheol Sefydlog 26.95:

Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.

Gan mai diben cyflwyno Bil Brys yw galluogi darpariaethau cyfreithiol brys i gael eu gweithredu'n gyflym, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn nodi fersiwn wedi'i symleiddio o brosesau deddfwriaethol arferol y Cynulliad, er mwyn osgoi unrhyw oedi. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cyhoeddi papur ar wahân ynghylch y weithdrefn ar gyfer **Biliau Brys** sy'n dangos y broses a ddilynir. Yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru:

Mae'r Bil i Ymadael â'r UE yn cynnwys darpariaethau a fyddai, o'u deddfu, yn medru cael eu defnyddio i rwystro'r Cynulliad rhag pasio'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol trin y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE fel Bil brys dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, a chraffu arno mewn digon o bryd er mwyn iddo gael ei basio a chael Cydsyniad Brenhinol cyn i'r Bil i Ymadael â'r UE ddod i rym.

Datblygiadau yn yr Alban

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth yr Alban ar ei dull o weithredu yn achos y Bil Ymadael. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban **Fil Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (yr Alban)** ar 27 Chwefror.

Mae'r **Memorandwm Polisi** sy'n cyd-fynd â Bil yr Alban yn datgan mai ei ddiben yw sicrhau y gellir paratoi deddfau datganoledig yr Alban ar gyfer effeithiau ymadawiad y DU hyd yn oed os nad yw'n bosibl dibynnu ar y Bil Ymadael. Dywedodd nad yw cyflwyno'r Bil yn golygu bod Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu gwrthod y Bil Ymadael a dibynnu ar y Bil hwn yn lle hynny. Os caiff y newidiadau angenrheidiol eu gwneud i'r Bil Ymadael, bydd Bil yr Alban yn cael ei dynnu'n ôl a bydd Gweinidogion yr Alban yn cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud, hyd nes y bydd y newidiadau hynny'n cael eu gwneud, y bydd y Bil Parhad Cyfreithiol yn mynd rhagddo trwy Senedd yr Alban fel bod fframwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer diogelu system gyfreithiau yr Alban pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Pan oedd yn siarad yn Senedd yr Alban, dywedodd Michael Russell ASA, y **Gweinidog dros Drafodaethau'r DU ar Safle'r Alban yn Ewrop**, fel a ganlyn:

It is simply not acceptable for Westminster unilaterally to rewrite the devolution settlement and to impose UK-wide frameworks in devolved areas without our consent. That is why we and the Welsh Government have been working so hard to ensure that the European Union (Withdrawal) Bill both protects devolution and does the job that it is supposed to do.

Nid yw Llywydd Senedd yr Alban, Ken McIntosh ASA, o'r farn bod Bil yr Alban, fel y'i drafftwyd, o fewn cymhwysedd. Dywedodd fod y Bil yn rhagweld effaith ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, a'i fod, fel y cyfryw, yn rhagdybio y gall y senedd wneud darpariaeth nawr ar gyfer arfer pwerau y mae'n bosibl y bydd y senedd yn eu cael yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r Arglwydd Adfocad James Wolffe, prif gynghorydd cyfreithiol Llywodraeth yr Alban, o'r un farn. **Dywedodd:**

It is not incompatible with EU law to make provision to deal with the inevitable consequences in domestic law of withdrawal from the EU in that way. Indeed, that appears to be the basis on which the UK Government's own European Union (Withdrawal) Bill, on which the continuity bill has been modelled, proceeds. If that is right, and if, contrary to the view of the Scottish Government, the continuity bill is incompatible with EU law, the same reasoning would apply equally to the UK Government's bill.

Mae'n bwysig cofio bod gwahaniaethau drafftio rhwng Bil Llywodraeth yr Alban â'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

2. Darpariaethau'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

Mae Bil Llywodraeth Cymru wedi'i ddrafftio'n wahanol i'r **Bil Ymadael**.

Mae'r Bil Ymadael yn darparu ar gyfer diogelu corff cyfan o gyfraith Ewropeaidd, a'i drosi'n gyffredinol i gyfraith ddomestig yr DU. Disgrifia hynny fel cyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*). Nid yw Bil Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y trosiad cyffredinol hwn. Yn hytrach, mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod cyfraith yr UE sy'n cwmpasu pynciau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael eu diogelu fel rhan o'r gyfraith yng Nghymru ar ôl ymadael. Yn ogystal, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu cyfraith yr UE o fewn cymhwysedd datganoledig; ond yn ddarostyngedig i nifer o gyfyngiadau a fwriadwyd i gyfyngu'r newidiadau i'r hyn sydd ei angen yng ngoleuni gadael yr UE.

Bydd y corff newydd o gyfraith yr UE a gaiff ei drosi gan y Bil hwn yn disgyn y tu allan i'r diffiniad o '*retained EU law*' yn y Bil Ymadael. O ganlyniad, ni fyddai'r cyfyngiadau ar y Cynulliad a Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addasu cyfraith yr UE a ddargedwir – gan gynnwys y cyfyngiadau yng nghymal 11 o'r Bil Ymadael, a ddisgrifir uchod – bellach yn gymwys.

Nid yw Bil Llywodraeth Cymru yn disodli'r Bil Ymadael. Yn hytrach, bydd y Bil yn gweithredu ochr yn ochr â Bil Llywodraeth y DU. Bydd unrhyw gyfraith yr UE na chaiff ei dargadw neu ei hailddatgan mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, er enghraifft, darpariaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn cael eu cwmpasu gan y Bil Ymadael a'u trosi i'r gyfraith ddomestig fel cyfraith yr UE a ddargedwir.

Bil fframwaith yn bennaf yw'r Bil, ac mae'n dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn nes ymlaen. Mae'n cynnwys 20 adran a 2 Atodlen. Mae crynodeb o'r rhain isod.

Darpariaethau

- Mae **Adran 1 (Trosolwg)** yn rhoi trosolwg byr o'r Bil, ac ni fwriedir iddi gael unrhyw effaith gyfreithiol.
- Mae **Adran 2 (Cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE)** yn diffinio 'cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE' at ddibenion y Bil fel corff o ddeddfwriaeth ddomestig a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 3, 4 a 5 o'r Bil sy'n anelu at ddiogelu cyfraith yr UE mewn meysydd datganoledig fel rhan o gyfraith Cymru.

- Mae **Adran 3 (Pŵer i ddargadw cyfraith uniongyrchol yr UE)** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, yn ôl yr hyn sy'n briodol yn eu barn hwy, i ddargadw cyfraith uniongyrchol yr UE sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel rhan o gyfraith Cymru ar ôl ymadael â'r UE. Mae 'cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd' yn cynnwys holl gyfraith yr UE sydd yn uniongyrchol gymwys yn y DU ar hyn o bryd, er enghraifft Cytuniadau'r UE sy'n cael effaith uniongyrchol yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn rhinwedd adran 2(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (DCE 1972) yn ogystal â rheoliadau, penderfyniadau a deddfwriaeth drydyddol yr UE. Wrth wneud y rheoliadau, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i geisio parhau â'r holl hawliau, pwerau, atebolrwyddau, rhwymedigaethau, cyfyngiadau, rhwymedïau a gweithdrefnau sy'n bodoli yng nghyfraith Cymru o ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE.
- Mae **Adran 4 (Ailddatgan deddfiadau sy'n deillio o'r UE)** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad sy'n deillio o'r UE sydd o fewn cymhwysedd datganoledig a'i ailddatgan gydag addasiadau fel y gall barhau i weithredu'n effeithiol fel rhan o gyfraith Cymru ar ôl ymadael â'r UE. Ni chaniateir gwneud addasiadau oni bai eu bod yn angenrheidiol i alluogi i'r deddfiad a gafodd ei ailddatgan barhau i weithredu ar ôl ymadael. Mae 'deddfiadau sy'n deillio o'r UE' yn cwmpasu deddfiadau sydd eisoes yn bodoli yn y gyfraith ddomestig, er enghraifft Deddfau Senedd y DU, Deddfau a Mesurau'r Cynulliad, ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hyn. Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn enghraifft o Ddeddf Cynulliad sy'n gweithredu cyfraith yr UE yng Nghymru.
- Mae **Adran 5 (Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE i barhau i gael effaith)** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i bennu bod darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth bresennol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, ac a wnaed o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE, yn parhau i weithredu fel rhan o gyfraith Cymru ar ôl ymadael. Mae 'pwerau sy'n ymwneud â'r UE' yn cwmpasu adran 2(2) o DCE 1972; paragraff 1A o Atodlen 2 i DCE 1972; ac adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973.
- Gan fod y Bil Ymadael yn diddymu DCE 1972 a hefyd yn diwygio adran 56 o'r Ddeddf Cyllid, bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pwerau hyn yn dod i ben ar ôl ymadael â'r UE oni bai bod rhywbeth yn cael ei wneud i'w hachub. Mae'r Bil yn gwneud hyn, mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd datganoledig, drwy ddarparu mecanwaith lle mae'r is-ddeddfwriaeth honno i'w thrin fel petai wedi'i gwneud o dan adran 5 o'r Bil yn hytrach nag o dan DCE 1972 neu adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973. Mae hyn yn golygu na fydd y ffaith bod y Bil Ymadael yn diddymu DCE 1972 ac yn diwygio adran 56 o Ddeddf 1973 yn effeithio ar yr is-ddeddfwriaeth honno, i'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â Chymru ac o fewn cymhwysedd y Cynulliad.
- Mae **Adran 6 (Heriau i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n codi o annilyrwydd offerynnau gan yr UE)** yn darparu, yn ddarostyngedig i eithriadau, na fydd yn bosibl mwyach, ar ôl i'r DU adael yr UE, herio unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE ar sail penderfyniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop bod offeryn sylfaenol yr UE yn annilyr.
- Mae **Adran 7 (Dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE)** yn darparu y penderfynir ar unrhyw gwestiwn o ran ystyr cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn unol â chyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop cyn ymadael, egwyddorion cyffredinol a'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r Goruchaf Lys yn rhwymol i gyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop cyn ymadael a gall gefnu arni yn yr un ffordd ag y gallai gefnu ar ei gyfraith achosion ei hun.
- Mae **Adran 8 (Rheolau tystiolaeth etc)** yn darparu, i'r graddau bod angen penderfynu ar ystyr cyfraith yr UE er mwyn i lys ddehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE, y bydd barnwyr yn parhau i benderfynu ar ddilyrwydd cyfraith yr UE, ei hystyr neu ei heffaith, fel cwestiwn cyfreithiol, yn

hytrach na thrin hynny fel cwestiwn ffeithiol y mae angen ei brofi. Mae adran 8 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sicrhau y gellir gosod rheolau tystiolaethol priodol ar waith ar gyfer dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE.

- Mae **Adran 9 (Cydydffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol)** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, yn ôl yr hyn sy'n briodol yn eu barn hwy, i atal neu ddatrys unrhyw achos o dorri rhwymedigaethau rhyngwladol o ganlyniad i ymadael â'r UE, ar yr amod bod y ddarpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig ac yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau.
- Mae **Adran 10 (Gweithredu'r cytundeb ymadael)** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig, i weithredu'r cytundeb ymadael, os bydd Senedd y DU yn pasio Deddf yn cymeradwyo'r telerau ymadael terfynol (ac yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau eraill).
- Mae **Adran 11 (Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael)** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig i gadw bob yn gam â chyfraith yr UE ar ôl ymadael.
- Mae **Adran 12 ac Atodlen 1 (Ffioedd a thaliadau)** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd neu daliadau eraill, neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd neu daliadau eraill, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth a roddir i awdurdod cyhoeddus o dan amryfal adrannau'r Bil.
- Mae **Adrannau 13 a 14 (Cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, a chymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth)** yn darparu bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i Weinidog Llywodraeth y DU wneud, cadarnhau neu gymeradwyo rhai mathau o is-ddeddfwriaeth. Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei chwmpasu os yw'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cwmpas cyfraith yr UE ar hyn o bryd ac sydd hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; ond dim ond lle mae'r pŵer i wneud yr is-ddeddfwriaeth honno yn cael ei rhoi gan Ddeddf Senedd y DU yn y dyfodol, neu o dan Ddeddf o'r fath (gan gynnwys drwy ymestyn pŵer sy'n bodoli eisoes). Er enghraifft, byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i Weinidogion Llywodraeth y DU geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o fewn cymhwysedd datganoledig o dan bwerau newydd a roddwyd iddynt yn y Bil Ymadael a deddfwriaeth sylfaenol arall gan Senedd y DU sy'n gysylltiedig ag ymadael, oherwydd bydd y rhain yn dod yn Ddeddfau ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.
- Mae **Adran 15 (Ystyr cymhwysedd datganoledig)** yn diffinio cymhwysedd datganoledig ar gyfer y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil drwy gyfeirio at ddarpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad a ddeddfir ar y diwrnod y daw adran 15 i rym. Yn rhinwedd adran 19, y diwrnod hwnnw fydd y diwrnod ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Ymddengys bod hyn yn diffinio cymhwysedd datganoledig trwy gyfeirio at y setliad datganoli presennol, nid y setliad cadw pwerau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Fodd bynnag, yn ambell ran o'r Bil, diffinnir "cymhwysedd datganoledig" trwy gyfeirio at ba un bynnag o'r ddau setliad sydd mewn grym ar yr adeg y gwneir y ddarpariaeth o dan yr adrannau hynny o'r Bil. Yn y ddau achos, dim ond darpariaeth y gellid ei gwneud o dan y setliadau hynny heb gydsyniad Gweinidog y DU yr ystyrir ei bod o fewn cymhwysedd datganoledig.
- Mae **Adran 16 (Rheoliadau i barhau i gael effaith)** yn pennu bod y pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 3-5 a 9-10 o'r Bil wedi eu cyfyngu gan amser. Fodd bynnag, nid yw rheoliadau a wneir o dan yr adrannau hyn yn dod i ben pan fydd y cyfnod amser yn darford.

- Mae **Adran 17 ac Atodlen 2 (Rheoliadau)** yn darparu bod y pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil yn ddigon eang fel y gellir gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol neu ardaloedd gwahanol. Mae Atodlen 2 yn nodi'r fframwaith craffu ar gyfer yr holl reoliadau a wneir o dan y Bil. Mae'n darparu ar gyfer tair gweithdrefn graffu wahanol: y weithdrefn safonol, y weithdrefn frys a'r weithdrefn uwch.
- Mae **Adran 18 (Dehongli cyffredinol)** (ynghyd ag adran 2) yn rhoi ystyr termau allweddol yn y Bil, gan gynnwys y diffiniad o'r 'diwrnod ymadael'. Ystyr diwrnod ymadael yw diwrnod neu amser ar ddiwrnod a benodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ddarpariaeth at yr un diben neu ddiben tebyg yn Neddf Senedd y DU neu o dan Ddeddf o'r fath sy'n rhoi effaith i ymadawiad y DU o'r UE (fel yn achos y Bil Ymadael). Mae adran 18(4), a hynny'n bwysig iawn, yn eu hatal rhag penodi diwrnod neu amser cyn i gyfraith yr UE beidio â bod yn gymwys i'r DU.
- Mae **Adran 19 (Dod i rym)** yn darparu y daw'r Bil i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod pan gaiff y Cydsyniad Brenhinol.
- Mae **Adran 20 (Enw byr)** yn darparu mai enw byr y Bil, ar ôl ei basio, fydd Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

Cyfraith uniongyrchol yr UE, deddfiadau sy'n deillio o'r UE a darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE

Bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sydd wedi'u hanelu at sicrhau bod y mathau a ganlyn o gyfraith yr UE yn parhau'n rhan o gyfraith Cymru:

1. Cyfraith uniongyrchol yr UE
2. Deddfiadau sy'n deillio o'r UE
3. Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE

Mae crynodeb o'r categorïau hyn isod.

Cyfraith uniongyrchol yr UE (adran 3)

Mae adran 3 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddargadw cyfraith uniongyrchol yr UE yn y gyfraith ddomestig, fel y mae'n bodoli pan ddaw'r Bil i rym. Mae cyfraith uniongyrchol yr UE yn cwmpasu cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys yng Nghymru yn rhinwedd adran 2(1) o Ddeddf DCE 1972, gan gynnwys, er enghraifft, reoliadau'r UE, penderfyniadau'r UE a deddfwriaeth drydyddol yr UE. Mae cyfraith uniongyrchol yr UE yn cael ei mabwysiadu ar lefel yr UE ac mae'n gymwys i bob Aelod-wladwriaeth.

Deddfiadau sy'n deillio o'r UE (adran 4)

Mae adran 4 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiddymu neu ddirymu deddfiad sy'n deillio o'r UE a'i ailddatgan, gydag unrhyw addasiadau sy'n angenrheidiol, i'w alluogi i weithredu'n effeithiol ar ôl ymadael. Mae deddfiadau sy'n deillio o'r UE yn ddeddfiadau sydd eisoes yn bodoli yng nghyfraith ddomestig y DU i weithredu rhwymedigaethau'r UE neu sydd, fel arall, yn ymwneud â'r UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio gan y Cynulliad neu Senedd y DU.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

Gan fod y deddfiadau hyn eisoes yn bodoli mewn cyd-destun domestig, hynny yw maent yn Ddeddfau'r Cynulliad neu Senedd y DU, Mesurau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth Cymru a'r DU, nid oes angen mabwysiadu'r un dull gweithredu â'r hyn welwyd yn adran 3 ar gyfer cyfraith uniongyrchol yr UE. Byddai ailddatgan y categori hwn o gyfraith yn sicrhau bod y categori o gyfraith wedi'i adnabod yn glir. Mae hyn yn ateb dau ddiben:

- i) mae'n nodi'r ddeddfwriaeth y mae'r rheolau yn ymwneud â dehongli yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn berthnasol iddi, ac*
 - ii) yn cael gwared ag unrhyw amheuaeth y byddai'r ddeddfwriaeth yn darfod wrth i'r DU ymadael â'r UE.*
-

Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE (adran 5)

Mae adran 5 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau bod is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE i'w thrin fel petai wedi'i gwneud o dan y Bil a'i bod i barhau i gael effaith yn y gyfraith ddomestig. Y pwerau sy'n ymwneud â'r UE yw:

- Adran 2(2) o DCE 1972;
- Paragraff 1A o Atodlen 2 i DCE 1972; ac
- Adran 56 o Ddeddf Gyllid 1973.

Dargadw, ailddatgan a phennu

Dargadw cyfraith uniongyrchol yr UE (adran 3)

Mae adran 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddargadw, mewn rheoliadau, gyfraith uniongyrchol yr UE mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i hepgor, a lle bo angen, disodli darpariaethau penodol o gyfraith uniongyrchol bresennol yr UE i'w galluogi i weithredu'n effeithiol yng nghyd-destun datganoledig Cymru. Er enghraifft, gallai darpariaethau yng nghyfraith uniongyrchol yr UE fod yn gymwys i Aelod-wladwriaeth, ardal neu ranbarth yr UE heblaw am Gymru, ac ni fyddai'n gwneud synnwyr ar sail Cymru'n unig. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol i'r Bil:

Cafodd cyfraith uniongyrchol yr UE ei dylunio, ei drafftio a'i mabwysiadu i fod yn gymwys yn gydwladol. Felly, mae cyfraith uniongyrchol yr UE yn cynnwys darpariaeth nad oes iddi unrhyw gymhwysiad ymarferol o ran Cymru. Bydd y pŵer i wneud darpariaeth gyfatebol felly yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd darn o gyfraith uniongyrchol yr UE a'i ail-lunio'n rheoliadau Cymreig sy'n gweithredu'n effeithiol mewn cyd-destun domestig.

Ailddatgan deddfiadau sy'n deillio o'r UE (adran 4)

Fel y nodwyd yn Memorandwm Esboniadol i'r Bil, mae deddfiadau a wnaed yn y DU sy'n gweithredu rhwymedigaethau'r UE eisoes yn gweithredu mewn sefyllfa ddomestig; felly 'bydd graddfa a natur yr addasiadau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gweithredu'n llwyddiannus mewn cyd-destun datganoledig Cymreig ar ôl i'r DU ymadael â'r UE yn wahanol i'r addasiadau angenrheidiol ar gyfer cyfraith uniongyrchol yr UE.' Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen cywiro rhai o'r deddfiadau hyn. O ganlyniad, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ailddatgan y deddfiadau gyda'r addasiadau 'angenrheidiol' i sicrhau y gallant barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl ymadael. Mae'r Bil yn cynnwys rhestr o'r math o addasiadau a allai fod yn angenrheidiol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at **Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016** fel enghraifft:

...mae adran 39 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad y Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru, gan gynnwys diarddel Aelodau Senedd Ewrop rhag bod yn aelodau o'r Panel. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ailddatgan y ddarpariaeth hon ond gydag addasiad i hepgor y ddarpariaeth ddiangen yn ymwneud ag Aelodau Senedd Ewrop.

Pwerau sy'n ymwneud â'r UE a bennir yn y rheoliadau (adran 5)

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil, ni chaniateir fel arfer i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan adran 2(2) a pharagraff 1A o Atodlen 2 i DCE 1972 ac adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973 gael eu creu o'r newydd na'u hailddatgan. Mae'r Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru bennu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pwerau hyn mewn rheoliadau yn gyntaf, a byddant wedyn yn gallu gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r is-ddeddfwriaeth honno er mwyn iddi barhau i weithredu'n effeithiol. Mae enghraifft o hyn yn y Memorandwm Esboniadol:

...byddai'r defnydd o Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) yn cael ei bennu gan gyfeirio at y Gyfarwyddeb Effeithiau Amgylcheddol a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd¹³. Byddai pŵer i wneud addasiadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwelliannau angenrheidiol i sicrhau bod y Rheoliadau'n gweithredu'n effeithiol.

Gweithdrefnau craffu

Mae'r holl reoliadau a wneir o dan y Bil yn ddarostyngedig i'r fframwaith craffu a nodir yn Atodlen 2. Mae Atodlen 2 yn darparu ar gyfer tair gweithdrefn graffu wahanol.

Y weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn safonol, ac mae'n gymwys i'r holl reoliadau a wneir o dan y Bil, ac eithrio'r rheini sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn frys neu'r weithdrefn uwch. Wrth gyfrifo'r nifer o ddiwrnodau sydd ar gael i graffu o dan y ddwy weithdrefn, ni fyddai'r toriadau yn cyfrif.

Mae'r weithdrefn frys yn gymwys i reoliadau a wneir o dan y Bil heblaw'r rhai a wneir o dan adran 11. Mae'r weithdrefn hon yn gymwys pan fydd Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud rheoliadau heb osod na chymeradwyo drafft. Bydd rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn frys yn peidio â chael effaith ar ôl cyfnod o 30 o ddiwrnodau oni bai bod y Cynulliad wedi eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod hwnnw, hynny yw, "gweithdrefn gadarnhaol gwnaed".

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefn graffu uwch. Y Cynulliad, neu bwyllgor o'r Cynulliad, sydd i benderfynu pa un ai i ddefnyddio'r weithdrefn uwch yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol safonol ar gyfer rheoliadau drafft sy'n gwneud darpariaeth o'r math a restrir yn Atodlen 2 adran 1(1). Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau o dan adran 11 o'r Bil (Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael), rheoliadau sy'n sefydlu awdurdod cyhoeddus newydd a rheoliadau sy'n creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu. Mae'r weithdrefn uwch yn golygu, am gyfnod o 60 diwrnod ar ôl gosod y rheoliadau drafft, y caiff unrhyw un wneud sylwadau amdanynt i Lywodraeth Cymru, y caiff y Cynulliad wneud penderfyniadau arnynt, ac y caiff pwyllgor o'r Cynulliad sy'n gyfrifol am lunio adroddiad arnynt wneud argymhellion yn eu cylch. Rhaid i Weinidogion Cymru dalu sylw i bob un o'r rhain. Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno parhau â'u drafft gwreiddiol, rhaid iddynt hysbysu'r Cynulliad am unrhyw sylwadau a wnaed. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gosod drafft diwygiedig, rhaid iddynt hysbysu'r Cynulliad am y newidiadau a wnaed ac, unwaith eto, rhoi manylion unrhyw sylwadau a wnaed am y drafft gwreiddiol. Caiff pwyllgor o'r Cynulliad argymhell na ddylid cynnal unrhyw drafodaethau pellach am y rheoliadau drafft, a bydd hyn yn rhwystro'r rheoliadau rhag cael eu

gwneud, oni bai bod y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn yn gwrthod yr argymhelliad hwnnw. Mae hyn yn gymwys i sefyllfa pan fo Gweinidogion Cymru yn cadw at eu drafft gwreiddiol, yn ogystal â sefyllfa lle maent yn gosod drafft diwygiedig. Yn olaf, bydd yn rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r rheoliadau.

Cymalau machlud a diwrnod ymadael

Mae'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau wedi eu cyfyngu gan amser. Rhaid i reoliadau o dan adrannau 3-5, sy'n galluogi addasu cyfraith yr UE, gael eu gwneud cyn y 'diwrnod ymadael' ond nid ydynt i ddod i rym cyn y diwrnod hwnnw. Gellir gwneud rheoliadau o dan adran 9, sy'n ymwneud â chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, am gyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol ac a ddaw i ben ddwy flynedd yn ddiweddarach. Ond ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 10, gweithredu'r cytundeb ymadael, ar ôl y diwrnod ymadael.

Yn wahanol i'r adrannau eraill sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, nid yw'r pŵer yn adran 11 o'r Bil i wneud rheoliadau sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael mewn meysydd polisi datganoledig wedi ei gyfyngu gan amser.

Mae'r diffiniad o "gymhwysedd datganoledig" yn y Bil yn golygu y bydd yn rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil fod yn gydnaws â chyfraith yr UE os cânt eu dwyn i rym cyn i'r DU adael yr UE.

Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i bennu 'diwrnod ymadael' (ond dim ond at ddibenion y Bil ei hun; ni all Gweinidogion Cymru effeithio ar y dyddiad pan fydd y DU yn gadael yr UE). Wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ddiwrnod a bennwyd at yr un diben neu ddiben tebyg yn Neddf Senedd y DU neu o dan Ddeddf o'r fath sy'n rhoi effaith i ymadawiad y DU o'r UE er nad oes dyletswydd arnynt i bennu'r un 'diwrnod ymadael' yn union. Ond, yn hollbwysig, mae'r Bil yn atal Gweinidogion Cymru rhag pennu dyddiad neu amser cyn i Gytuniadau'r UE - ac felly holl gyfraith yr UE - beidio â bod yn gymwys yn y DU.

Mae'r Bil Ymadael yn pennu mai'r 'diwrnod ymadael', at ddibenion y Bil, yw 29 Mawrth 2019 am 11.00pm, ddwy flynedd ar ôl tanio Erthygl 50. Fodd bynnag, gellid diwygio'r Bil trwy reoliadau i newid y diffiniad o 'ddiwrnod ymadael' os bydd cytundeb ymadael yn pennu dyddiad gwahanol neu os bydd y DU a'r Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno ar estyniad i'r cyfnod negodi. Felly, gallai'r diffiniad o 'ddiwrnod ymadael' o dan y ddau Fil gael eu cysoni, er gwaethaf y gwahanol ffyrdd o'u diffinio. At hynny, pe bai'r 'diwrnod ymadael' o dan y Bil Ymadael yn methu cyn i Gytuniadau'r UE beidio â bod yn gymwys i'r DU, byddai'r DU yn torri'r gyfraith ryngwladol. Felly, mae bwriad y cysyniad o 'ddiwrnod ymadael' yn y ddau Fil hefyd yn gyson.

Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae'r Llywydd wedi datgan, yn ei barn hi, bod darpariaethau'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r cymhwysedd yn deillio o Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Bil wedi cael ei asesu o dan y setliad datganoli presennol (rhoi pwerau). O 1 Ebrill 2018, daw'r model cadw pwerau i rym a bydd unrhyw filiau lle bydd y bleidlais ar egwyddorion cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod 1 yn digwydd ar 1 Ebrill neu wedi hynny yn ddarostyngedig i'r profion cymhwysedd deddfwriaethol newydd. Cyn belled â bod Cyfnod 1 y Bil hwn wedi'i gwblhau cyn 1 Ebrill 2018, bydd y Bil yn dod o dan y setliad presennol (rhoi pwerau) yn hytrach na'r setliad newydd (cadw pwerau).

Hefyd, er mwyn iddo ddod i rym, mae'n rhaid i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol cyn i'r Bil Ymadael ei gael. Gallai'r cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad a gynigir yng nghymal 11 o'r Bil Ymadael (gweler uchod) atal y Cynulliad rhag gallu pasio'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

3. Costau a manteision

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif ariannol o'r costau a'r manteision. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar weinyddu'r Bil ac ar gydymffurfiaeth. Nid yw'n ystyried yr effeithiau economaidd ehangach. Ychydig o wybodaeth a geir ynghylch pa opsiwn a fyddai'n arwain at lai o gostau neu fanteision, ar wahân i'r datganiad a ganlyn: "byddai'n rhesymol rhagdybio y byddai'r costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru ar eu hisaf dan Opsiwn 1 ac ar eu huchaf dan Opsiwn 3."

Isod, ceir crynodeb o'r modd y mae effaith y Bil ar gostau yn cael eu disgrifio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Costau ac arbedion gweinyddu a chydymffurfiaeth

Bydd costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru o ran datblygu is-ddeddfwriaeth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y gellid cywiro nifer o ddiffygion trwy fân ddiwygiadau testunol. Fodd bynnag, mae hefyd yn awgrymu efallai y bydd angen sefydlu asiantaethau newydd i ymgymryd â swyddogaethau cyrff presennol yr UE.

Bydd y rheoliadau a wneir o dan y Bil yn addasu'r cyfundrefnau rheoleiddiol presennol, felly bydd costau cydymffurfio i fusnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ac unigolion wrth addasu i'r trefniadau newydd.

Er na ragwelir unrhyw arbedion trosiannol, yn dibynnu ar ganlyniad negodiadau'r DU gyda'r UE, gallai fod arbedion neu gostau rheolaidd yn sgil deddfwriaeth yn y dyfodol wrth i'r trefniadau rheoleiddiol gael eu hadolygu. Ni fyddai hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Bil hwn, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Costau heb eu meintoli neu anfanteision

Y rheoliadau a wneir o dan y Bil fydd yn arwain at gostau a manteision y Bil hwn yn hytrach na'r Bil ei hun. Er y bydd y rheoliadau hyn yn cael effaith o ran costau a manteision, nid ydynt wedi eu meintoli ar hyn o bryd.

Y rhesymau a roddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol am beidio â meintoli'r costau a'r manteision yw:

- Mae gormod o ansicrwydd am nad yw'r cyfnod pontio a'r telerau ymadael â'r UE, a natur y berthynas â'r UE yn y dyfodol, yn hysbys.
- Nid oes cynsail i'w ddefnyddio i wneud amcangyfrifon; mae hon yn sefyllfa unigryw.
- Ni wyddys faint o is-ddeddfwriaeth y bydd angen ei gwneud.
- Ni wyddys faint o gywiriadau y bydd angen eu gwneud i gyfraith bresennol yr UE.
- Nid yw natur ac effaith deddfwriaeth a fframweithiau newydd y DU yn hysbys.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dod i'r casgliad, er y bydd yr ansicrwydd hwn yn lleihau gydag amser, y byddai unrhyw amcangyfrifon a gaiff eu paratoi yn yr amser sydd ar gael mewn perygl o fod gamarweiniol a/neu'n rhy eang i fod yn ystyrlon.¹

Mae'n bwysig bod dadansoddiadau manwl o gostau yn cael eu darparu gydag is-ddeddfwriaeth a bod amser a chapasiti i Lywodraeth Cymru baratoi'r costau hyn ac i'r Cynulliad graffu arnynt. Cyfeiriodd y Pwyllgor Cyllid at hyn yn ei [Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth](#).

4. Darpariaethau allweddol y Bil

Mae'r adran hon o'r papur yn cyfeirio at rai o'r agweddau neu'r darpariaethau allweddol yn y Bil y gallai'r Aelodau fod yn dymuno eu hystyried yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad.

Strwythur y Bil

Fel y nodwyd yn adran 2 o'r papur hwn, mae'r Bil hwn wedi'i ddrafftio yn wahanol i'r Bil Ymadael. Mae'r Bil Ymadael yn mewnfario holl gyfraith yr UE yn awtomatig, gydag ychydig eithriadau, i gyfraith y DU, ac yna mae'n rhoi pwerau i Weinidogion addasu'r gyfraith honno fel ei bod yn gweithredu ar ôl i'r DU adael yr UE. Nid yw'r Bil hwn yn mewnfario'n awtomatig holl gyfraith yr UE sy'n dod o dan y categorïau a ddisgrifir yn adrannau 3, 4 a 5 o'r Bil. Yn lle hynny, mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pa elfennau o gyfraith bresennol yr UE mewn meysydd polisi datganoledig y maent yn dymuno'u dargadw (trwy wneud deddfwriaeth ddomestig sy'n cyfateb iddi, sy'n ei hailddatgan neu sy'n ei phennu). Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau yn ei dargadw, drwy un o'r dulliau hyn, mae'r gyfraith honno'n dod yn 'gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE'.

Nid yw'r Bil hwn yn diwygio nac yn newid testun y Bil Ymadael yn uniongyrchol. Yn hytrach, ei effaith yw na fyddai unrhyw un o gyfreithiau Cymru sy'n deillio o'r UE, a grëwyd gan Weinidogion Cymru o dan eu pwerau yn adrannau 3, 4 a 5, yn cael ei chyfrif fel 'cyfraith yr UE a ddargadwyd' o dan y Bil Ymadael - ac felly ni fyddai'n ddarostyngedig i unrhyw o'r cyfyngiadau y mae'r Bil hwnnw'n eu gosod ar y Cynulliad a Gweinidogion Cymru. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth yr UE y mae Gweinidogion Cymru yn dewis peidio â'i dargadw o dan eu pwerau yn y Bil hwn yn dod yn rhan o gylch gorchwyl y Bil Ymadael ac yn ddarostyngedig i'w gyfyngiadau ef. Felly, bydd pa un a fydd gan y Cynulliad gymhwysedd i addasu darn o gyfraith sy'n deillio o'r UE ar ôl ymadael yn dibynnu a fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ei ddargadw ai peidio.

Adran 3

Mae adran 3 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddargadw cyfraith uniongyrchol bresennol yr UE mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig trwy wneud rheoliadau sy'n atgynhyrchu, i bob pwrpas, gyfraith uniongyrchol yr UE yng nghyfraith ddomestig Cymru. Mae cyfraith uniongyrchol yr UE, fel y'i nodir yn adran 2 o'r papur hwn, yn golygu darpariaethau yng Nghytuniadau'r UE, rheoliadau'r UE a deddfwriaeth arall yr UE nad ydynt ar lyfr statud y DU ar hyn o bryd oherwydd y byddant yn gymwys yn awtomatig neu'n 'uniongyrchol' yng nghyfraith y DU, ar ôl eu mabwysiadu gan sefydliadau'r UE.

Mae adran 3(4) o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru hepgor rhai elfennau o gyfraith uniongyrchol yr UE na fyddant yn gwneud synnwyr pan fydd y DU wedi gadael yr UE. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid cyfraith uniongyrchol yr UE mewn rhai ffyrdd. Mae'r rhain i gyd

¹ Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw Bil yr UE (Ymadael) Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â mater costau gweinyddol y Llywodraeth.

wedi'u rhestru yn adrannau 3(4)(a) i 3(4)(i) o'r Bil. Er nad yw'r rhestr o bethau nad oes yn rhaid i Weinidogion Cymru eu cynnwys, neu y gallant eu newid, yn gynhwysfawr: mae adran 3(4) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth yn y rhestr 'ymhlith pethau eraill'. Fe wnaeth Senedd y DU feirniadu'r defnydd o'r rhestr anghynhwysfawr o newidiadau y caiff Gweinidogion eu gwneud yng nghymal 7 o'r Bil Ymadael. O ganlyniad, pasiwyd gwelliant yn ystod trafodion Tŷ'r Cyffredin, sydd, i bob golwg, yn gwneud y rhestr yng nghymal 7(2) yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mewnosodwyd is-adran 7(3) newydd ar yr un pryd, sy'n caniatáu i Weinidogion hefyd (i) gwneud unrhyw beth sy'n debyg i bethau yn y rhestr, a (ii) ychwanegu at y rhestr drwy is-ddeddfwriaeth.

Mae'r eitem gyntaf yn y rhestr wedi'i chynnwys yn adran 3(4)(a) o'r Bil. Mae hyn yn dweud, wrth wneud rheoliadau i atgynhyrchu darn o gyfraith uniongyrchol yr UE, y caiff Gweinidogion Cymru beidio â chynnwys unrhyw beth na fyddai ganddo 'gymhwysiad ymarferol' o ran Cymru neu sydd, yn eu barn hwy, 'fel arall yn ddiangen neu'n sylweddol ddiangen'. Mae hyn yn adlewyrchu'r maen prawf yng nghymal 7(2)(a) o'r Bil Ymadael, yn ei ffurf bresennol; heblaw mai'r prawf yn y Bil Ymadael yw a yw Gweinidogion yn 'ystyried' nad oes gan y ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE unrhyw gymhwysiad ymarferol neu a yw'n ddiangen. I'r gwrthwyneb, dim ond os yw'r amodau a ddisgrifir yn y rhestr yn gymwys yn wrthrychol y caiff Gweinidogion Cymru wneud y newidiadau a ganiateir gan adran 3(4). Felly, mae pwerau Gweinidogion Cymru o dan Fil y Cynulliad yn fwy cyfyngedig nag o dan y Bil Ymadael, er bod y gwahaniaeth, yn yr achos hwn, yn fach, gan fod gofyn i Weinidogion bob amser, o dan gyfraith gyhoeddus gyffredinol y DU, fod yn "rhesymol" yn eu hystyriaethau.

Yn fwy cyffredinol, mae'r pwerau a gynigir ar gyfer Gweinidogion Cymru o dan adran 3 o Fil y Cynulliad yn fwy cyfyngedig na'r rhai sydd ar gael i Weinidogion y DU o dan gymal 7 o'r Bil Ymadael. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i wneud y newidiadau a restrir yn adran 3(4) wedi'u cyfyngu gan yr amodau yn is-adrannau 3(1) a (2). Mae is-adran (1) yn gosod y cyfyngiad cyffredinol mai pŵer Gweinidogion Cymru yw gwneud rheoliadau sy'n 'cyfateb' i gyfraith yr UE ac at y diben o 'barhau â gweithrediad' y gyfraith. Pan fyddant yn defnyddio'r pŵer hwnnw, mae is-adran (2) yn eu gorfodi 'i geisio parhau â'r hawliau ... y rhwymedigaethau, y cyfyngiadau, y rhwymedïau a'r gweithdrefnau' sydd, ar hyn o bryd, yn gymwys yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru o ganlyniad i gyfraith yr UE.

Fodd bynnag, mae adran 3 yn rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru ynghylch faint o gyfraith uniongyrchol yr UE y byddant yn ei hatgynhyrchu ar gyfer Cymru. Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud hynny y mae adran 3, nid dyletswydd; ac mae'n eu galluogi i benderfynu faint o gyfraith yr UE y maent yn 'ystyried yn ei bod briodol' iddi barhau. Mae'r elfennau hyn o adran 3 yn adlewyrchu elfennau cymal 7 o'r Bil Ymadael a fu'n ddadleuol yn Senedd y DU ac ymhlith sylwebyddion allanol.

Nid oes unrhyw ofyniad yn y Bil fel y'i drafftwyd i Weinidogion Cymru nodi, wrth wneud rheoliadau o dan adran 3, pa rannau o gyfraith uniongyrchol yr UE y maent yn eu hepgor neu'n eu newid, a pham. Efallai y bydd yr Aelodau yn y mwyafrif helaeth o achosion yn cytuno â Gweinidogion Cymru ynghylch yr hyn y maent yn ei hepgor, ond efallai na fyddant ym mhob achos. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru ddewis hepgor gofyniad yn un o reoliadau'r UE sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch pa gamau a gymerwyd ganddynt i gyflawni amcan y rheoliad hwnnw. Er na fyddai angen y cyfeiriad at y Comisiwn Ewropeaidd ar ôl i Gymru adael yr UE, gallai Gweinidogion Cymru hefyd ddewis ei ddisodli gyda dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad i'r Cynulliad ar gyflawni'r amcan, yn hytrach na hepgor y ddyletswydd yn llwyr. Diwygiwyd y Bil Ymadael yn Nhŷ'r Cyffredin i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU wneud datganiad esboniadol cyn gosod is-ddeddfwriaeth o dan y Bil gerbron y Senedd. Ymhlith pethau eraill, rhaid i'r datganiad esbonio'r rhesymau dros wneud yr is-ddeddfwriaeth a'i heffaith, os oes un, ar gyfraith yr UE a ddargedwir (sy'n cynnwys y gyfraith sy'n cyfateb i 'gyfraith uniongyrchol yr UE' ym Mil y Cynulliad).

Mae adrannau 3(4)(g) o'r Bil ac adran 3(4)(h) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyrannu swyddogaeth a gyflawnir gan gorff yr UE ar hyn o bryd, o dan gyfraith uniongyrchol yr UE, i gorff cyhoeddus sy'n bodoli yng Nghymru, neu i greu corff cyhoeddus newydd at y diben hwnnw. Darperir pwerau tebyg i Weinidogion y DU gan gymal 7(6) o'r Bil Ymadael.

Adran 4

Mae adran 4 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiddymu neu ddirymu deddfiad a'i ailddatgan gydag addasiadau os yw'r deddfiad o fewn cymhwysedd datganoledig a'i fod naill ai'n anelu at weithredu rhwymedigaeth yr UE neu yn ymwneud fel arall â'r UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar gyfer pob diben neu rai ohonynt.

Fel y nodir yn adran 2 o'r papur hwn, ystyr deddfiad yw deddfwriaeth ddomestig bresennol, a gallai gynnwys Deddf neu Fesur Cynulliad, Deddf Senedd y DU neu ddarn o is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y naill neu'r llall. Enghraifft o hyn fyddai Rhan 5 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Rhan 5 o'r Ddeddf hon, a basiwyd gan y Cynulliad, yn nodi'r camau y caiff Llywodraeth Cymru eu cymryd i warchod yr amgylchedd morol wrth wneud gorchmynion pysgodfeydd cregyn. Mae'n cynnwys cyfeiriadau at safleoedd morol Ewropeaidd a chyfarwyddebau Ewropeaidd na fyddant efallai yn gwneud synnwyr ar ôl i'r DU adael yr UE. Gallai Llywodraeth Cymru ddiddymu neu ddirymu Rhan 5 o'r Ddeddf honno a'i hailddatgan gan addasu'r cyfeiriadau hyn. Pe bai hynny'n gwneud hynny, byddai'r hyn a arferai fod yn rhan o Ddeddf y Cynulliad yn dod yn ddarn o is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu newid yr is-ddeddfwriaeth honno yn y dyfodol, ac eithrio mewn ffyrdd a ganiateir gan adran 4. Mae telerau adran 4 yn golygu y byddai hyn, i bob pwrpas, yn gyfyngedig i gywiro camgymeriadau neu wallau yn y rheoliadau gwreiddiol wrth ailddatgan Rhan 5.

Mae adran 4(2) o'r Bil yn gosod cyfyngiad ar yr addasiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud i ddeddfiad wrth ei ailddatgan. Ni chaniateir gwneud addasiad 'oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr addasu neu'r ddarpariaeth bellach yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y deddfiad ailddatganedig ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.' Mae'r defnydd o'r term 'angenrheidiol' yn fwy cyfyng na'r term '*Ministers consider appropriate*' a ddefnyddir yn y Bil Ymadael, ond nid yw mor gyfyng â'r term 'hanfodol' yr oedd **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad wedi awgrymu ei ddefnyddio i fframio pwerau Gweinidogion Cymru yn y Bil Ymadael.

Fel yn achos adran 3(4) o'r Bil, caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau o dan adran 4 i ddileu darpariaethau o'r gyfraith bresennol wrth ei hailddatgan. Mae'r rhestr o bethau y caniateir eu dileu i'w cael yn adrannau 4(3)(a) i 4(3)(g). Fel yn achos adran 3(4), nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, fel y'i gwneir yn glir gan y geiriau, "nid ydynt yn gyfyngedig i" yn llinell ragarweiniol adran 4(3). Mae adran 4(3)(a) hefyd yn debyg i adran 3(4)(a) yn y ffaith y caiff Gweinidogion Cymru ddileu o ddeddfiad 'unrhyw beth nad oes ganddo unrhyw gymhwysiad ymarferol' neu lle mae unrhyw ran ohono 'yn ddiangen neu'n sylweddol ddiangen' o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE. Mae'r pwerau hyn yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r prawf cyffredinol bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y newidiadau yn 'angenrheidiol'; ond mae elfen o ddisgresiwn yn y term 'ystyried' – er ei fod wedi'i gyfyngu gan y gofyniad mewn cyfraith gyhoeddus i fod yn rhesymol.

Mae adran 4(4) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth ailddatgan deddfiad, i ddarparu bod swyddogaeth a gyflawnir ar hyn o bryd gan gorff o'r UE yn cael ei dyrannu i gorff cyhoeddus yng Nghymru neu'n cael ei disodli, ei diddymu neu ei haddasu fel arall. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd greu cyrff cyhoeddus newydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau a restrir yn y rheoliadau. Mae'r pwerau hyn yn debyg i bwerau yn adran 3(4)(g) a (h).

Adran 5

Mae adran 5 o'r Bil yn rhoi dewis amgen i Weinidogion Cymru i adran 4 fel modd o sicrhau bod rhai categorïau o'r ddeddfwriaeth ddomestig bresennol yn parhau i fod yn gymwys yng nghyfraith Cymru ar ôl gadael yr UE, ac i addasu'r gyfraith honno i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn ei 'ystyried yn angenrheidiol' i sicrhau ei 'gweithrediad effeithiol' ar yr adeg honno. Dim ond i'r is-ddeddfwriaeth bresennol a wnaed o dan bwerau penodol sy'n ymwneud â'r UE y mae'n gymwys, a dim ond i ddarpariaethau o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Byddai'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu darpariaethau'r is-ddeddfwriaeth honno. Effaith hyn yw na fyddai'r darpariaethau hynny yn rhan o'r Bil Ymadael ac na fyddent peidio â bod yn effeithiol yn awtomatig pan fydd y Bil hwnnw'n dod i rym gan ddiddymu DCE 1972 a diwygio adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973. Felly byddai'r darpariaethau yn parhau i fod mewn grym yng nghyfraith Cymru ar ôl gadael yr UE. Mae adran 5 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu darpariaethau penodol. Fel y pŵer yn adran 4, mae hyn yn gyfyngedig i wneud newidiadau y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn 'angenrheidiol' er mwyn sicrhau 'gweithrediad effeithiol' y darpariaethau ar ôl gadael yr UE. Mae'r addasiadau y caniateir eu gwneud yn cynnwys y rhai y gellid eu gwneud o dan adran 4 ac, unwaith eto, nid ydynt yn gynhwysfawr.

Mae gorgyffwrdd rhwng y pwerau yn adrannau 4 a 5. Gellid dirymu deddfiad a wnaed o dan adran 2(2) o DCE 1972 a'i ailddatgan o dan adran 4, ond gellid ei bennu hefyd o dan adran 5. Fodd bynnag, mae adran 4 yn mynd ymhellach, gan ei bod yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol a mwy o gategorïau o is-ddeddfwriaeth nag adran 5. Bydd gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i ddefnyddio'r naill bŵer neu'r llall os yw'r ddau yn gymwys, ond, fel y nodir uchod, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai adran 5 fydd yn cael ei defnyddio yn yr achos hwn fel arfer. Gallai hyn fod am resymau ymarferol, o ystyried y swm mawr o ddeddfwriaeth sy'n debygol o fod ei hangen mewn amser byr i osgoi bylchau yn y gyfraith: efallai y bydd yn gynt nodi rhestr o ddarpariaethau o dan adran 5 na'u diddymu a'u hailddatgan gydag addasiadau. Gellid addasu'r darpariaethau a bennir o dan adran 5 yn nes ymlaen, fel addasiadau 'angenrheidiol'.

Adran 7

Mae adran 7 o'r Bil yn nodi sut y dylai'r Llysoedd ddehongli'r corff o 'gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE' a grewyd gan y Bil. Mae'n gwneud darpariaethau tebyg i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), ond gydag un gwahaniaeth nodedig. Mae adran 7(2)(a) o'r Bil yn caniatáu i 'gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE' gael ei dehongli yn unol â'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Nid yw'r Siarter yn cael ei drosi i gyfraith y DU gan y Bil Ymadael. Nid yw'r Bil yn honni trosi'r hawliau a gynhwysir yn y Siarter i gyfraith Cymru fel hawliau annibynnol, ychwaith. Ond byddai'n sicrhau, lle mae'r llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn ystyried darpariaethau cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE, eu bod yn parhau, ar ôl gadael yr UE, i ddehongli'r darpariaethau hynny yn unol â'r hawliau a'r egwyddorion yn y Siarter.

Adran 9

Mae adran 9 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, dwy reoliadau, wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig 'y maent yn ystyried ei bod yn briodol' i atal neu unioni unrhyw achos, sy'n codi o ymadawiad y DU â'r UE, o dorri rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Darperir pŵer tebyg iawn i Weinidogion Cymru o dan gymal 8 o'r Bil Ymadael, ond byddai Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i lai o gyfyngiadau o dan y Bil hwn nag wrth ddefnyddio'r pwerau y bwriedir ar eu cyfer o gan gymal 8 o'r Bil Ymadael.

Mae'r defnydd o'r term '*considers appropriate*' yn y Bil Ymadael wedi'i feirniadu am fod yn rhy eang. Mae **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad wedi argymhell disodli'r term '*considers appropriate*' yn y Bil Ymadael gyda'r term '*essential*'.

Adran 10

Mae adran 10 o'r Bil hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n debyg i'r rhai a fyddai ganddynt o dan gymal 9 o'r Bil Ymadael. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig 'y maent yn ystyried ei bod yn briodol' ar gyfer gweithredu cytundeb ymadael y DU o'r UE.

Cafodd cymal 9 o'r Bil Ymadael ei feirniadu mewn dadl yn Nhŷ'r Senedd am ganiatáu i Weinidogion y DU weithredu'r cytundeb ymadael trwy reoliadau yn hytrach na rhoi cyfle i'r ddau Dŷ ystyried a phleidleisio ar welliannau trwy ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol. Felly, yn ystod taith y Bil Ymadael trwy Dŷ'r Cyffredin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno Cytundeb Ymadael a Bil Gweithredu. Felly, diwygiwyd cymal 9 o'r Bil Ymadael fel bod Gweinidogion ond yn cael defnyddio'r pwerau sydd ynddo ar ôl i Ddeddf sy'n gweithredu'r Cytundeb Ymadael gael ei phasio. Mae adran 10 o'r Bil hwn yn cydnabod y newid hwn ac yn gosod cyfyngiad cyfatebol ar Weinidogion Cymru.

Fel adran 9, byddai adran 10 yn rhoi pwerau llai cyfyngedig i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o gymharu â'r pwerau a gynigir iddynt o dan gymal 9 o'r Bil Ymadael.

Dim ond mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig y caniateir i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Gan mai dim ond cyn y diwrnod ymadael y gellir defnyddio pwerau adran 10, yna, wrth ddefnyddio'r pwerau hyn, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r cyfyngiad yn adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n atal y Cynulliad rhag pasio deddfau sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE.

Fel yn achos adran 9, mae'r telerau a ddefnyddir i gyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru yn ehangach na'r rhai a ddefnyddir yn adran 4, gan y gallant wneud rheoliadau y maent yn 'eu hystyried yn briodol' yn hytrach na rheoliadau y maent yn eu hystyried yn 'angenrheidiol'. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r term 'angenrheidiol', hyd yn oed, yn cyfyngu ar y pwerau i'r graddau a awgrymwyd gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad, sydd wedi argymhell defnyddio'r term 'hanfodol' yn y Bil Ymadael.

Adran 11

Byddai adran 11 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn cyflwyno deddfwriaeth newydd neu'n addasu deddfwriaeth bresennol fel y gall Cymru gadw i fyny â deddfwriaeth newydd yr UE a gaiff ei phasio ar ôl i'r DU adael yr UE. Caiff Gweinidogion Cymru addasu unrhyw 'ddeddfiad', gan gynnwys Deddfau'r Cynulliad neu Ddeddfau Seneddol mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig, gan ddefnyddio'r pwerau hyn i wneud rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai diben y pŵer hwn yw galluogi:

... Gweinidogion Cymru i gynnal cydweddiad rheoleiddiol â'r UE lle bo hynny'n ddymunol. Mae'r UE yn farchnad bwysig iawn ar gyfer nwyddau a gwasanaethau Cymru, ac fe fydd hynny'n parhau i fod yn wir. Bydd darparu cydweddiad rheoleiddiol yn hwyluso mynediad at farchnad fewnol yr UE i fusnesau o Gymru, gan liniaru unrhyw effaith economaidd bosibl y gallai ymadawiad y DU â'r UE ei chael ar economi Cymru.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwahanol weithdrefnau craffu ar gyfer rheoliadau a wneir o dan amryfal adrannau'r Bil (gweler adran 2 y papur hwn). Byddai rheoliadau o dan adran 11 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwch, a allai ganiatáu i'r Aelodau ddylanwadu ar eu cynnwys, yn ogystal â'u gwrthod neu eu cymeradwyo. Fodd bynnag, fel yn achos pob math o is-ddeddfwriaeth, ni fyddai Aelodau'r Cynulliad yn gallu diwygio rheoliadau drafft o dan yr adran hon fel y byddent pe bai'r darpariaethau wedi'u

gwneud yn un o Ddeddfau'r Cynulliad. O ystyried bod y pŵer hwn yn ymwneud â chyfraith yr UE nad yw ar waith ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl dweud ar gyfer beth y gellid defnyddio'r pwerau o dan yr adran hon yn y dyfodol.

Oni chaiff y Bil hwn ei ddeddfu, a bod y Bil Ymadael yn dod yn ddeddf, a chymal 11 ar ei ffurf bresennol, ni fyddai'r Cynulliad yn gallu pasio Deddfau sy'n cyfateb i gyfraith yr UE yn y dyfodol mewn meysydd polisi datganoledig, na rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud hynny, oherwydd byddai hynny'n golygu newid 'cyfraith yr UE a ddargedwir', ac mae cymal 11 ar hyn o bryd yn atal y Cynulliad rhag gwneud hynny.

Adrannau 13 ac 14

Mae adran 13 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU (neu unrhyw gorff arall sydd wedi cael pwerau deddfu) gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n bodloni cyfres o amodau. Yr amodau hynny yw bod y ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd datganoledig, ei bod yn disgyn o fewn cwmipas cyfraith yr UE cyn ymadael, a'i bod yn cael ei gwneud o dan bŵer newydd a roddwyd gan Ddeddf Seneddol sy'n cael Cydsyniad Brenhinol ar ôl y dyddiad y daw adrannau 13 a 14 i rym (a fydd ar y diwrnod ar ôl i'r Bil hwn gael Cydsyniad Brenhinol), neu o dan bŵer presennol sy'n cael ei addasu, ar yr un adeg yn y dyfodol, mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i Weinidogion y DU wneud y ddarpariaeth berthnasol, na fyddent wedi gallu ei gwneud o'r blaen.

Mae adran 14 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU, neu unrhyw gorff arall sydd wedi cael pwerau deddfu, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn iddynt gadarnhau unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n bodloni amodau cyfwerth â'r rhai yn adran 13. Byddai hyn yn berthnasol, er enghraifft, i'r pŵer i gadarnhau is-ddeddfau.

O dan y Bil Ymadael, rhoddir pwerau cydredol i Weinidogion y DU â Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu y byddent yn gallu defnyddio eu pwerau o dan y Bil Ymadael i wneud is-ddeddfwriaeth i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir gan y Bil hwnnw mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig. Ni fyddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ofyn cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, yn y gwelliannau a awgrymwyd ganddynt ar y cyd i'r Bil, wedi ceisio newid hyn fel bod yn rhaid cael eu cydsyniad. Codwyd materion tebyg gan y ddwy lywodraeth ddatganoledig mewn perthynas â phwerau a gynigir ar gyfer Gweinidogion y DU o dan y Bil Masnach sydd ar ei daith drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Byddai'r adrannau hyn o'r Bil presennol yn sicrhau ei bod yn ofynnol i Weinidogion y DU geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru hyd yn oed pe na chaiff y Bil Ymadael na'r Bil Masnach eu haddasu neu pe gwneir darpariaethau tebyg mewn unrhyw ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sylfaenol yn sgil ymadael â'r UE.

Y defnydd o bwerau Harri'r VIII

Mae adrannau 3, 4, 5, 9, 10 ac 11 o'r Ddeddf hon yn cynnwys yr hyn a elwir yn bwerau Harri'r VIII. Hynny yw, byddent yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, ac i wneud newidiadau arwyddocaol eraill – fel sefydlu corff cyhoeddus newydd – a fyddai fel rheol angen deddfwriaeth sylfaenol i'w gwneud.

Rhoddyd pwerau o'r un natur i Weinidogion y DU a Gweinidogion Datganoledig o dan y Bil Ymadael. O gofio maint y dasg ddeddfwriaethol, cafodd yr angen i Weinidogion gael y pwerau hyn o dan y Bil Ymadael ei dderbyn ar y cyfan, ond mae Pwyllgorau'r Cynulliad yn ogystal â dau Dŷ'r Senedd wedi pwysleisio bod yn rhaid i'r pwerau hyn gael eu rheoli a'u cyfyngu'n llym. Yn ei adroddiad ar **Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ymadael** dywedodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad y byddai angen 'cyfiawnhad clir' dros ddefnyddio pwerau Harri'r VIII yn y Bil

Ymadael. Yn y **Nodiadau Esboniadol** i'w gwelliannau arfaethedig i'r Bil Ymadael, dywedodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

“We are aware that there are significant concerns in Parliament about the very broad scope of the Henry VIII powers proposed in the Bill, and would be supportive of amendments which sought to define these more narrowly.”

Cafodd paragraff 22 o Atodlen 7 i'r **Bil Ymadael** ei ddiwygio yn ystod taith y Bil trwy Dŷ'r Cyffredin i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion wneud datganiad wrth osod rheoliadau yn cadarnhau fel a ganlyn:

- Nad yw'r rheoliadau yn gwneud mwy nag sy'n briodol;
- Yn esbonio pwrpas y rheoliadau a'r rhesymau drostynt;
- Yn dweud i ba gyfraith cyn y diwrnod ymadael y maent yn berthnasol iddi; a'r
- Effaith (os oes un) y maent yn ei chael ar gyfraith yr UE a ddargedwir gan y Bil.

Mae Pwyllgor Dethol y Cyfansoddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi hefyd wedi argymhell **yn ei adroddiad** ar y Bil Ymadael fod y Gweinidog yn y Memoranda Esboniadol:

... include a statement from the minister setting out the ‘good reasons’ for the regulations and explaining that this constitutes a ‘reasonable course of action’. We further recommend that explanatory memoranda should include a certification from the minister that the regulation does no more than make technical changes to retained EU law in order for it to work post-exit, and that no policy decisions are being made. Such certification would assist Parliament to identify which instruments need greater scrutiny.



7 Mawrth 2018

Annwyl gyfeillion,

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi bod Adroddiad Blynyddol 2017 Horizon 2020 yng Nghymru wedi'i gyhoeddi.

Mae Horizon 2020 yn werth €70 biliwn, a hi yw rhaglen ymchwil ac arloesi fwyaf erioed yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n creu cyfleoedd go iawn i sefydliadau yng Nghymru fod yn rhan o'r gwaith blaengar sy'n digwydd ym maes ymchwil ac arloesi. Mae ein Papur Gwyn ['Diogelu Dyfodol Cymru'](#) a'n papur polisi 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit' yn ei gwneud yn gwbl glir pa mor bwysig fydd hi inni barhau i gymryd rhan yn Horizon 2020 a'r rhaglen a ddaw yn ei lle ar ôl i'r DU ymadael â'r EU.

Mae'r adroddiad, sydd ar gael yn <http://gov.wales/funding/eu-funds/horizon2020/?skip=1&lang=cy> yn disgrifio sut mae sefydliadau o Gymru wedi perfformio hyd yn hyn o ran cael mynediad at gyllid Horizon 2020, a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein prif amcanion ar gyfer sicrhau mwy o lwyddiant fyth, gan edrych ymlaen at weithgareddau 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl enghraifft o sefydliadau sydd wedi elwa ar y ffynhonnell bwysig hon o gyllid yr UE.

Bellach mae sefydliadau o Gymru wedi elwa ar dros €83m o gyllid Horizon 2020 drwy 189 o gyfranogiadau. Mewn ychydig dros flwyddyn, rydym wedi gweld cynnydd o 77 o gyfranogiadau a'r cyfle i fanteisio ar dros €30m o gyllid, gydag oddeutu 2,000 o bartneriaid rhyngwladol hyd yn hyn. Mae'n amlwg bod Horizon 2020 yn cefnogi Cymru gan ein bod yn genedl sy'n edrych y tu hwnt i'n ffiniau er mwyn cydweithio gyda goreuon Ewrop a'r byd.

Mae'r perfformiad cryf hwn ynadlewyrchu'r ffaith bod dull gweithredu egniïol a chadarnhaol ar waith mewn sefydliadau yng Nghymru, er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch Brexit, ac mae hefyd yn dyst i'r angen parhaus am y math hwn o gyllid ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn tynnu sylw at lwyddiannau sylweddol eraill, gan gynnwys lefel uchel o gyfranogi gan fusnesau yng Nghymru; cynnydd nodedig yn amrywiaeth y sefydliadau sy'n manteisio ar y rhaglen; enghreifftiau o weithio ar draws sefydliadau; a defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i sicrhau'r capasiti y mae ei angen i elwa ar ffynonellau cyllid cystadleuol megis Horizon 2020.

Caiff y llwyddiannau eu dathlu yn nigwyddiad blynyddol Horizon 2020 yng Nghaerdydd ar 15 Mawrth, pan fydd cyfle i drafod ymhellach gyda'n partneriaid i'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar ôl inni o dan Horizon 2020, ac i baratoi ar gyfer y rhaglen a ddaw yn ei lle.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark". The letters are cursive and slightly slanted to the right.

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon